

## PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

### 8 Tachwedd 2017

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Parc Llanion, Doc Penfro 10.00am – 1.15pm]

1. Yn dilyn yr adroddiad am farwolaeth anhymig Carl Sergeant AC yn ddiweddar fe gododd Aelodau'r Pwyllgor ar eu traed i gynnal munud o dawelwch.
2. **Ymddiheuriad**  
Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth y Cynghorydd P Baker.
3. **Datgelu buddiant**  
Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a'r/neu'r materion y cyfeirir atyn nhw isod:

| <b>Cais a Chyfeirnod</b>  | <b>Aelod(au)/swyddog(ion)</b>               | <b>Gweithred</b>   |
|---|---|--|
| <i>Cofnodion 7(a) a 7(b) isod</i><br>NP/16/0677 ac<br>NP/16/0679 – Melin<br>Blackpool, Pont<br>Blackpool, Arberth       | Cynghorydd A Wilcox<br>Cynghorydd P Harries | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais o dan drafodaeth      |
| <i>Cofnodion 7(d)isod</i><br>NP/17/0301 –<br>Crochenwaith Trefdraeth<br>a hen safle'r Depot, Heol<br>Parrog, Trefdraeth | Cynghorydd P Harries                        | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais o dan drafodaeth      |
| <i>Cofnodion 7(g)isod</i><br>NP/17/0346 Tir yn<br>Lawreni   | Cynghorydd D<br>Clements                    | Gadael y cyfarfod tra roedd y cais o dan drafodaeth      |
|   | Mr AE Sangster                              | Aros yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y drafodaeth a |



gafwyd.

Cofnodion 7(h)isod  
NP/17/0452 6 Golygfa  
Saint Brïd, Solfach

Cynghorydd M Evans

Gadael y cyfarfod  
tra roedd y cais o  
dan drafodaeth

#### 4. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017 eu cyflwyno ar gyfer eu cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017.

**NODWYD.**

#### 5. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartion a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud (*mae'r partion sydd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u ceisiadau perthnasol ac yn y drefn yr oedden nhw'n annerch y Pwyllgor*):

| Rhif cyfeirnod                                  | Cynnig   | Siaradwr   |
|---|--|--|
| NP/16/0677/FUL<br><i>Cofnod 7(a)<br/>cyfeir</i> | Addasu ac adnewyddu'r Felin bresennol a'r adeiladau ategol i ddarparu cyfleuster twristiaeth treftadaeth. Adeiladu rheilffordd ager cul a phlatfform a gorsaf gysylltiedig. Adeiladu ysgubor digwyddiadau pob tywydd 792metr sgwâr a chyfleusterau cysylltiedig, parcio beiciau, parcio cerbydau, adeiledd safle yn cynnwys gwasanaethau draenio ynghyd â thirweddu meddal a chaled a thriniaethau ffin - Melin Blackpool, Pont Blackpool, | Valerie Bradley –<br>Gwrthwynebydd<br>Robin Williams –<br>Asiant |



|   |   |   |
|---|---|---|
| NP/16/0679/FUL<br><i>Cofnod 7(b)</i><br><i>cyfeir</i> | Arberth<br>Gwaith peirianeg i hwyluso<br>llwybr y trê'n bach o'r brif<br>ganolfan, tua'r gogledd, i<br>gysylltu â'r maes parcio<br>sydd newydd gael ei<br>adnewyddu a'i ymestyn i<br>wasanaethu cynnig melin<br>Melin Blackpool - Melin<br>Blackpool, Pont Blackpool,<br>Arberth  | Joseph Sutherland<br>– Gwrthwynebydd<br>Robin Williams –<br>Asiant                                      |
| NP/17/0305/FUL<br><i>Cofnod 7(e)</i><br><i>cyfeir</i> | Addasu'r tŷ cwch presennol<br>yn rhandy ac adeiladu<br>islawr newydd a grisiau<br>gorchuddiedig, adeiladu<br>ystafell hamdden newydd ar<br>ochr ddeheuol y byngalo ac<br>ail-leoli'r gawod allanol<br>bresennol, gwaredu'r<br>fffenestri bae presennol a<br>gosod rhai newydd yn eu<br>lle – Trewent Bungalow,<br>Freshwater East | Vicky Tomlinson –<br>Gwrthwynebydd  |
| NP/17/0315/FUL<br><i>Cofnod 7(f)</i><br><i>Cyfeir</i> | Datblygiad preswyl yn<br>cynnwys 18 o breswylfeydd<br>a gwaith cysylltiedig - Tir<br>oddi ar Heol Walton, Aber<br>Llydan, Hwlfordd.   | Ramone Phillips –<br>Cyngor Cymuned<br>Connie Stephens –<br>Gwrthwynebydd<br>Robin Williams –<br>Asiant |
| NP/17/0452/FUL<br><i>Cofnod 7(h)</i><br><i>Cyfeir</i> | Dymchwel ac ailadeiladu<br>cwrtil a wal wrth ymyl y<br>ffordd a chreu lle parcio ar<br>dir gwag yn union i'r<br>gogledd o Bentwyn -<br>Pentwyn, 6, Golygfa Sain<br>Ffraid, Solfach  | Ashley Heart –<br>Gwrthwynebydd<br>Ian Bartlett –<br>Asiant   |
| NP/17/0548/FUL<br><i>Cofnod 7(j)</i><br><i>Cyfeir</i> | Codi estyniad i'r sied<br>wartheg ar gyfer y fuches<br>bïff a symud y deunydd a<br>gloddiwyd - Tir i'r gogledd o<br>Hean Castle, Saundersfoot,  | David Lewis –<br>Ymgeisydd  |



## 6. Dyletswyddau Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor o fewn y ddarpariaeth gynllunio ac yn nodi'r rheidrwydd i benderfynu yn unol â threfniadaeth statudol a'r Cynllun Datblygu Lleol oedd wedi'i fabwysiadu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol. Pwysleisiwyd bod rhaid anwybyddu ystyriaethau nad oedden nhw'n berthnasol wrth benderfynu materion cynllunio a nodwyd mai eithriad prin iawn oedd ystyriaeth o amgylchiadau personol fel ystyriaeth berthnasol. Pwysleisiwyd hefyd ddyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiad cynaliadwy yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Tra bo'r Aelodau'n gweithredu'r Deddfau Cynllunio yn gyfreithlon ac mewn modd teg a diduedd fe fydden nhw hefyd yn cydymffurfio â dyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 fel yr oedd yn ymwneud â phenderfyniadau cynllunio. Roedd hefyd yn bwysig i'r Aelodau ddefnyddio'r cyfarwyddyd a gynhwysid yn y ddogfen Arfer Da o fewn Cynllunio o eiddo'r Awdurdod wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau statudol.

## NODWYD

## 7. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y ceisiadau yn y modd canlynol (*nodir y penderfyniad ynghylch pob un yn dilyn y manylion a nodir am y cais perthnasol*):

*[Datgelodd y Cynghorwyr P Harries ac A Wilcox fuddiant yn y ddau gais canlynol ac fe adawon nhw'r cyfarfod tra roedden nhw o dan drafodaeth]*

- (a) CYFEIRNOD: NP/16/0677/FUL  
YMGEISYDD: Bluestone National Park Resorts Ltd  
CYNNIG: Addasu ac adnewyddu'r Felin bresennol a'r adeiladau ategol i ddarparu cyfleuster twristiaeth treftadaeth. Adeiladu rheilffordd ager cul a phlatfform a gorsaf gysylltiedig. Adeiladu ysgubor digwyddiadau pob tywydd 792metr sgwâr a chyfleusterau cysylltiedig, parcio beiciau, parcio cerbydau, adeiledd safle yn cynnwys gwasanaethau draenio ynghyd â thirweddu meddal a chaled a thriniaethau ffin  
LLEOLIAD: Melin Blackpool, Pont Blackpool, Arberth, Sir Benfro, SA67 9BL

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais o 'bwys' hwn wedi ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor ym mis Mai 2017 yn dilyn Archwiliad Safle gan yr Aelodau ym



mis Chwefror 2017 pan benderfynwyd gohirio ei ystyried ar gais yr ymgeisydd er mwyn eu galluogi i ddelio â'r rhesymau a argymhellwyd dros wrthod.

Ers mis Mai 2017 cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng yr ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd a'r Awdurdod er mwyn trafod newidiadau posib i'r cynllun a gwybodaeth ychwanegol roedd ei angen. Fodd bynnag, hyd yma doedd yna ddim gwybodaeth ychwanegol na chynlluniau diwygiedig wedi dod i law.

Roedd yr adroddiad yn darparu manylion ynghylch y datblygiad arfaethedig yn ogystal ag ymateb ymgynghorwyr cyhoeddus a statudol a ddaeth i law. Nodwyd bod deiseb yn cynnwys 128 o lofnodion yn gwrthwynebu'r datblygiad hefyd wedi dod i law. Roedd gwerthusiad y swyddog wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig oherwydd ei raddfa, dyluniad a lleoliad yn arwain at effaith niweidiol ar Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol, ac yn arbennig effaith niweidiol ar lonyddwch a synnwyr o bellenigrwydd safle'r cais a'r ardal oddi amgylch. Byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn effeithio'n andwyol ar leoliad adeilad rhestredig Gradd II\* y Felin a'r adeiladau cysylltiol yn ogystal â lleoliad y ffermdy rhestredig Gradd II High Toch yn arbennig wrth ystyried y rheilffordd, y platfform, yr orsaf, y ffensio a'r sgubor achlysuron arfaethedig. Ystyriwyd hefyd bod y cais yn brin o wybodaeth ddigonol i ganiatáu i'r awdurdod cynllunio lleol i asesu'n briodol effaith y datblygiad ar rywogaethau sydd wedi'u diogelu, a safleoedd gerllaw sydd wedi'u clustnodi, ynghyd â chynllun monitro trafnidiaeth a manylion gwelliannau priffordd, a fyddai'n rhoi hyder digonol i'r awdurdod cynllunio lleol i dderbyn na fyddai'r datblygiad yn arwain at effaith niweidiol ar ddiogelwch priffordd a cherddwyr.

Tra cydnabyddid y byddai'r datblygiad yn sicrhau buddiant economaidd i'r ardal ac yn adfer adeilad rhestredig Gradd II\*, doedd effeithiau niweidiol y datblygiad ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a lleoliad yr adeiladau rhestredig ddim wedi eu gorbwyso gan y ffactorau economaidd. Roedd "Egwyddor Sandford" yn ei gwneud yn glir "Lle nad oes modd cysoni gwrthdaro rhwng cadwraeth a mwynder cyhoeddus, yna, lles cadwraeth ddylai fod flaenaf", o'r herwydd, nid oedd yn bosib cefnogi'r cais fel yr oedd a'r argymhelliad oedd gwrthod am y rhesymau a osodwyd allan yn yr adroddiad. Nododd y swyddogion hefyd pe bai'r cais yn cael ei wrthod gan y Pwyllgor, byddai gan yr ymgeisydd gyfle i ail-gyflwyno ei gais o fewn 12 mis heb orfod talu ffi. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau hefyd y byddai trafodaethau yn parhau ynghylch canfod datblygiad mwy priodol. Ystyriwyd hefyd y gallai'r cais ehangach fod yn fwy cynaliadwy trwy adleoli'r ddarpariaeth parcio cerbydau i fod oddi fewn neu gyferbyn i gyrchfan Bluestone, gan waredu'r effeithiau sylweddol posib ar y ffordd lai cyffiniol i Felin Blackpool.



Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at lythyr o bryder wrth Gyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a oedd wedi'i ddsbarthu cyn y cyfarfod.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd Valerie Bradley a esboniodd ei bod wedi byw ger y safle ers 50 mlynedd a bob amser wedi'i fwynhau fel gwerddon o lonyddwch darluniadol. Dywedodd ei bod yn cytuno â gwrthwynebiadau Cyngor Cymuned Llawhaden a'r Ecolegydd Cynllunio fel roedden nhw wedi'u gosod allan yn yr adroddiad. Ystyriai Ms Bradley na ellid caniatáu'r ffens dolennu cadwyn o gofio mai ethos y Parc Cenedlaethol oedd diogelu, hyrwyddo a rhannu. Roedd y mwyafrif o ymwelwyr i'r ardal ar hyn o bryd yn bobl leol ac roedd hi felly'n disgrifio'r cynnig fel 'lladrad'. Roedd y safle yn ymwneud â chadwraeth natur ac roedd iddo werth daearegol a doedd y datblygiad ddim yn gynaliadwy o ran dyluniad, doedd e ddim chwaith yn diogelu bioamrywiaeth a byddai'n achosi llygredd golau. Byddai natur heddychlon y feidr, a oedd yn cael ei defnyddio'n gyson gan gerddwyr, yn cael ei ddinistrio. Credai Ms Bradley na fyddai'r cynigion yn fwynder ond yn hytrach yn ddolurus i'r llygad ac yn tsiep, a byddai'r sgubor barod arfaethedig yn cymryd mwy o le o ran ôl-troed na'r Felin, ac roedd y rhestr o achlysuron a ddarparwyd yn ei barn hi yn obeithiol wrthun. Roedd hi hefyd yn ystyried bod angen cynllun rheoli carthffosiaeth o ystyried y nifer o ymwelwyr a ddisgwyliid i'r safle. Roedd hwn yn efelychiad gwantan o fangreoedd oedd eisoes wedi'u sefydlu a chredai mai byr fyddai ei oes; doedd dim angen mwy o gyrchfannau o'r math hwn. Byddai'r swyddi fyddai'n cael eu darparu yn talu cyflogau isel ac yn dymhorol heb fawr o obeithion ynghlwm, a'r unig fuddianwyr fyddai'r ymgeiswyr.

Credai Ms Bradley fod Melin Blackpool, a oedd wedi'i ddylunio i gydymffurfio â'r adeiladau ystâd ehangach, wedi'i wneud yn darged, ac nad oedd gan y dyfrgwn, y gweilch a'r drudwy lais yn y mater. Cytunodd fod y synnwyr o lonyddwch yn y lleoliad hwn yn bwysig iawn a dyfynnodd y diffiniad fel roedd wedi'i osod allan yn yr adroddiad. Tra bo'r adeilad ar gau doedd e ddim yn brin o gariad ac fe ymbiliodd ar y Pwyllgor i wrthod y cais.

Ymatebodd yr Asiant, Robin Williams, trwy ddweud nad oedd yn bwriadu dadlau am rinweddau'r cynnig ond yn hytrach gofyn yn syml am i'r cais gael ei ohirio i ganiatáu cyflwyno cynllun wedi'i ddiwygio, ynghyd â newidiadau perthnasol, i'w ystyried. Esboniodd fod yr ymgeiswyr ers mis Mai wedi bod mewn cyswllt â swyddogion yn yr Awdurdod yn ogystal â swyddog Adran Briffyrdd Cyngor Sir Penfro a'r Ecolegydd ac roedd cynnydd arwyddocaol wedi'i wneud. Roedd y swyddogion yn ymwybodol fod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio ar gyfer terfyn amser yng nghanol mis Tachwedd i ailgyflwyno am fod y tymor ecolegol newydd ddod i ben



ac amseriad adroddiad gan ymgynghorydd arbennig ynghylch llonyddwch. Dywedodd yr asiant felly ei fod wedi'i synnu bod y cais wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn arbennig gan ei fod yn hyderus y byddai'r rhesymau dros wrthod yn cael sylw yn yr ailgyflwyniad. Dywedodd Mr Williams hefyd ers i'r cais gael ei ohirio ym mis Mai roedd yna newid wedi bod yn Aelodaeth y Pwyllgor ac roedd felly wedi disgwyl y byddai yna ymweliad safle arall wedi'i drefnu er lles cysondeb, a holodd sut y gallai'r Aelodau benderfynu'r cais heb fod wedi ymweld â'r safle. Gofynnodd felly i'r Aelodau ohirio penderfyniad er mwyn caniatáu iddyn nhw ymweld â'r safle yn ogystal â chaniatáu cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol gan yr ymgeisydd.

Gofynnodd yr Aelodau i'r asiant beth oedd graddfa'r newidiadau i'r cais ac fe atebodd y byddai yna welliannau ecolegol o ganlyniad i'r gwaith arolwg ychwanegol, newidiadau i'r parcio cerbydau yn ogystal â diwygiadau eraill. Ychwanegodd y swyddogion pe bai yna newidiadau perthnasol i'r cynllun, yna, byddai rhaid wrth ymgynghori pellach. Roedden nhw'n ystyried y byddai'n broses dryloywach o ran pawb a oedd yn ymwneud â'r cais pe bai'n cael ei wrthod a'i ailgyflwyno.

Dywedodd nifer o'r Aelodau eu bod yn ystyried gohirio'r cais er mwyn cyflwyno gwybodaeth ychwanegol. Mynegodd un ei siomiant nad oedd yna fwy o gydweithrediad rhwng y swyddogion a'r ymgeiswyr a bod cyflwyno'r cais gerbron y Pwyllgor y diwrnod hwnnw 'wedi bod yn gynamserol' am nad oedd gan yr Aelodau'r holl wybodaeth angenrheidiol ger eu bron ac roedd hynny'n niweidiol i'r ymgeisydd. Dywedodd ei bod yn bwysicach i'r penderfyniad cywir gael ei wneud nac oedd i ddilyn trefn ragordeiniedig a chynigiodd gohirio'r cais. Cafodd hwn ei eilio.

Anghytunai nifer o'r Aelodau a'r honiad nad oedd dilyn trefn ragordeiniedig yn bwysig a chroesawent agwedd agored a thryloyw'r swyddogion. Roedden nhw o'r farn fod cymaint o faterion heb eu datrys fel mai'r cam gorau fyddai gwrthod y cais er mwyn cyflwyno cais o'r newydd ac yna byddai'r Aelodau yn medru ymweld â'r safle. Cafodd y diwygiad hwn ei gynnis a'i eilio. Gofynnodd Aelod arall pe bai'r cais yn cael ei wrthod y dylid cyfeirio at Adran 66 a oedd yn rhoi sylw penodol i adeiladau rhestredig a'u lleoliad am ei bod yn ofynnol rhoi pwys o'r mwyaf ar hyn.

Cymrwyd pleidlais ar ohirio'r cais ac fe gollwyd hwn. Pleidleisiodd y Pwyllgor wedyn ar y cynnig i wrthod y cais ac fe gariodd y dydd.

### **PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

- 1. Byddai'r datblygiad arfaethedig ar sail ei raddfa, dyluniad a lleoliad yn arwain at effaith weledol andwyol ar y fro oddi amgylch ac yn**



niweidiol i nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at golled sylweddol o'r synnwyr o bellenigrwydd a llonyddwch y fro a bydd wedi'i leoli'n ansensitif a heb gydymdeimlad oddi fewn i'r tirlun a bydd yn cyflwyno datblygiad nad yw'n gydnaws â'i leoliad ac o'r herwydd yn groes i Bolisiau 1 (Dyletswyddau ac Amcanion y Parc Cenedlaethol), 8 (Nodweddion Arbennig), 15 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) o'r Cynllun Datblygu Lleol (2010) a fabwysiadwyd a Pholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9) 2016.

2. Byddai'r datblygiad arfaethedig ar sail ei raddfa, dyluniad a lleoliad yn arwain at effaith niweidiol ar leoliad adeilad rhestredig Gradd II\* y Felin a'r adeiladau cysylltiol a'r ffermdy rhestredig Gradd II High Toch gan andwyo amgylchedd hanesyddol y lleoliad ynghyd â nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae'r datblygiad felly yn groes i Bolisiau 1 (Dyletswyddau ac Amcanion y Parc Cenedlaethol), 8 (Nodweddion Arbennig), 15 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) o'r Cynllun Datblygu Lleol (2010) a fabwysiadwyd.
3. Cyflwynwyd manylion annigonol ynghylch effaith y datblygiad ar rywogaethau sydd wedi'u diogelu a safleoedd sydd wedi'u clustnodi er mwyn caniatáu i'r awdurdod cynllunio lleol i werthuso'n gywir effaith y datblygiad a chynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sydd yn groes i Bolisi 11 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2010) a fabwysiadwyd a Chadwraeth Cynefinoedd a Rheoliadau Rhywogaethau 2010 (fel y mae wedi'i ddiwygio).
4. Cyflwynwyd manylion annigonol ynghylch symudiadau cerbydau, monitro parcio a gwelliannau priffyrdd ar ffurf cytundeb cyfreithiol i alluogi'r awdurdod cynllunio lleol i werthuso'n gywir yr effaith y datblygiad ar y briffordd a diogelwch cerddwyr. Mae'r cais felly yn groes i Bolisi 53 o'r Cynllun Datblygu Lleol (2010) a fabwysiadwyd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

- (b) CYFEIRNOD: NP/16/0679/FUL  
YMGEISYDD: Bluestone National Park Resorts Ltd  
CYNNIG: Gwaith peirianeg i hwyluso llwybr y trê'n bach o'r brif ganolfan, tua'r gogledd, i gysylltu â'r maes parcio sydd newydd gael ei adnewyddu a'i ymestyn i wasanaethu cynnig melin Melin Blackpool  
LLEOLIAD: Melin Blackpool, Pont Blackpool, Arberth, Sir Benfro, SA67 8BL

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cais hwn wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor i'w ystyried am ei fod yn codi materion o ddiddordeb cyhoeddus





arwyddocaol a'i fod yn rhan o ddatblygiad cyffredinol Melin Blackpool a'r tir oddi amgylch (*Cofnod 7(a) cyfeir*). Roedd yr Aelodau wedi cerdded ar hyd llwybr y trêen bach pan ymwelwyd â'r safle ym mis Chwefror 2017. Cyflwynwyd y cais gerbron y Pwyllgor wedyn ym mis Mai 2017 pan gafodd yr ystyriaeth ohono ei ohirio ar gais yr ymgeisydd er mwyn caniatáu iddyn nhw ddelio â'r argymhellion dros wrthod.

Ers mis Mai 2017, roedd cyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng yr ymgeisydd, asiant yr ymgeisydd a'r Awdurdod er mwyn trafod newidiadau posib i'r cynllun a gwybodaeth newydd roedd ei angen. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid oedd gwybodaeth ychwanegol na chynlluniau diwygiedig wedi'u cyflwyno.

Roedd y swyddogion yn ystyried fod yr egwyddor o'r cynnig o drêen bach ar y cyfan yn dderbyniol. Fodd bynnag, roedd ansawdd y manylion a ddarparwyd hyd yma yn annigonol i sicrhau na fyddai niwed yn cael ei achosi i rywogaethau sydd wedi'u diogelu, coed a thirwedd, ac o'r herwydd argymhellwyd gwrthod y cais.

Roedd y cais hwn wedi'i gysylltu'n annatod â datblygiad cyffredinol y Felin a'r tir oddi amgylch, ac er mwyn sicrhau y byddai'r trêen bach yn gweithredu yn unol â'r hyn a gynigid ac yn cyfyngu'r effaith ar y rhwydwaith briffyrdd presennol, trwy gael ei gyflwyno cyn y datblygiad cyflawn neu fe fyddai angen cytundeb S106. Doedd S106 ddim wedi'i gyflwyno gyda'r cais ac o ystyried yr effaith sylweddol y gallai'r datblygiad cyflawn ei gael ar y briffordd ac ar ddiogelwch defnyddwyr bregus, heb ddiogelwch gweithredu'r trêen bach ystyrid y byddai'r datblygiad yn arwain at effaith andwyol ar ddiogelwch priffordd.

Y cyntaf o ddau siaradwr oedd Joseph Sutherland. Credai fod yna dystiolaeth eisoes fod Bluestone yn effeithio ar fioamrywiaeth, yn arbennig ar y weirglodd, ond fodd bynnag roedd angen gwaith arolwg pellach yn arbennig arolygon entomolegol a nosol, nad oedden nhw hyd yn hyn wedi'u gwneud. Roedd hefyd yn pryderu y byddai'r wyneb anffroddrol yn amharu ar dramwy bywyd gwyllt ac mae'r unig ddull o ddraenio dŵr wyneb oedd ffosydd cerrig, ac o ystyried y posibilrwydd o lygredd olew o gerbydau, awgrymodd system ddraenio gaeedig, ynghyd â chynllun llygredd olew a fyddai o bosib yn fwy priodol, yn arbennig gan fod y cwrs dŵr mor agos. Ei bryder arall oedd goleuo am y gallai hyn effeithio'n negyddol ar ystumod; holodd Mr Sutherland pam fod angen golau ar hyd llwybr y trêen bach am y byddai gan y cerbyd a fyddai'n tynnu'r trêen ei oleuadau ei hun ac roedd yn dyfalu y byddai'r trac yn cael ei ddefnyddio ar gyfer seiclo hefyd. Roedd ganddo bryder hefyd na fyddai'r trêen wedi'i reoleiddio na'i drwyddedu am ei fod yn gweithredu'n unig ar dir preifat. O ran y rheilffordd dywedodd Mr Sutherland nad oedd yna dystiolaeth fod yna Orchmynion Rheilffordd Ysgafn wedi'u gwneud



yng nghyffiniau Melin Blackpool. Terfynodd trwy ddweud nad oedd y cynigion fel roedden nhw wedi'u cyflwyno yn cydymffurfio ag amcanion y Parc Cenedlaethol o gynnydd a diogelwch amgylcheddol cadarnhaol.

Gwrthododd yr asiant, Robin Williams, ei gyfle i siarad drachefn trwy ddweud nad oedd ganddo sylw pellach i'w ychwanegu at yr hyn roedd wedi'i ddweud wrth ddelio â'r cais blaenorol.

Er bod yr adroddiad yn nodi fod egwyddor y datblygiad yn gyffredinol dderbyniol fe arweiniodd y ffaith nad oedd yna Gytundeb S106, na chwaith arolygon ecolegol na choedydd, at benderfyniad yr Aelodau i bleidleisio i wrthod y cais.

#### **PENDERFYNIAD: Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:**

- 1. Gwybodaeth annigonol wedi'i gyflwyno o ran gwaith arolygon, effeithiau ar SSSI a SAC gerllaw, ac effeithiau posib ar fywyd gwylt ar goed wedi'u cywasgu ar hyd y llwybr. Ni ellir felly gefnogi'r cais ac nid yw wedi llwyddo i gydymffurfio â Pholisïau 11 (Gwarchod bioamrywiaeth) a 15 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2010).**
- 2. Gwybodaeth annigonol wedi'i gyflwyno o ran arolwg o goed fydd yn cael eu heffeithio gan seiliau'r trac arfaethedig. Am fod y lled yn 4.6 metr a'r dyfnder yn 1 metr mae'n bosib yr effeithir yn negyddol ar wreiddiau'r coed gan y gwaith peirianyddol arfaethedig ac nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gallu asesu'n briodol yr effaith ar y coed heb y wybodaeth hon. Yn seiliedig ar y niwed posib i nifer o goed aeddfed ar hyd y llwybr ni ellir cefnogi'r cais am nad yw'n cydymffurfio a Pholisïau 8 (Nodweddion Arbennig), 11 (Gwarchod Beioamrywiaeth) a 15 (Cadwraeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2010).**
- 3. Yn absenoldeb unrhyw gytundeb S106 bydd y datblygiad yn arwain at effaith andwyol ar ddiogelwch priffordd. Rhaid i'r trê'n bach gael ei gwblhau cyn y gwneir defnydd buddiol o atyniad Melin Blackpool yn ôl cynnig NP/16/0677/FUL. Nid yw'r cais yn cynnig yr un mecanwaith i sicrhau sut y gwneir hyn; felly mae'r datblygiad arfaethedig yn groes i Bolisïau 52 a 53 o Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (2010).**

*Gohiriwyd y Pwyllgor am getyn byr.*



- (c) CYFEIRNOD: NP/17/0299/FUL  
YMGEISYDD: CTIL a Telefonica  
CYNNIG: Gosod mast 15 metr sy'n dal antenau mewnol, 2 ddysgl 300mm, lle cadw offer radio a datblygiad ategol mewn clos a ffens, ynghyd â ffordd fynediad.  
LLEOLIAD: I'r gogledd o Greenlea, Dinas

Roedd y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt y Cyngor Cymuned yn groes i argymhelliad y swyddog i gymeradwyo.

Roedd safle'r cais wedi'i leoli mewn coedlan fechan oddi fewn i ganol Dinas gyferbyn i'r cae chwarae. Roedd y cynllun arfaethedig yn rhan o brosiect i ganfod a darparu derbyniad mewn ardaloedd gwledig a phentrefi lle nad oedd yna fawr o dderbyniad neu dim derbyniad o gwbl. Roedd Dinas a'r ardaloedd oddi amgylch yn un o'r ardaloedd hynny a byddai'r cynnig yn darparu gwelliant sylweddol o ran derbyniad yn y pentref a'r ffordd a'r ardaloedd oddi amgylch.

Daeth chwe llythyr o wrthwynebiad i law wrth eiddo cyfagos yn ychwanegol i'r gwrthwynebiad wrth Gyngor Cymuned Dinas ac roedd y materion a godwyd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.

Roedd y swyddogion o'r farn bod y cynllun arfaethedig o ran graddfa, crynswth, ffurf a manylion dyluniad yn dderbyniol yn y cyswllt hwn. Roedd golwg y dyluniad a lleoliad gwaelod yr orsaf yn sicrhau y byddid yn cynnal nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wrth edrych o'r dirwedd agos ac ehangach. Byddai'r cynnig hefyd yn sicrhau y byddai'r derbyniad presennol yn ardal Dinas yn gwella yn union fel mewn ardaloedd eraill oddi fewn i Gymru. O'r herwydd ystyrid bod y cais yn dderbyniol a'i bod yn bosib ei gefnogi gydag amodau priodol.

Eglurodd y swyddog yn y cyfarfod y dylai'r ymateb wrth Gyfeiriad y Parc APCAP - Mineralau fod wedi darllen 'Dim gwrthwynebiad' tra bo'r ymateb wrth y Rheolwr Hawliau Tramwy a Mynediad wedi ei adael allan ac roedd yn darllen " Dim gwrthwynebiad yn amodol ar amodau a ddylid eu cynnwys mewn gwybodlen pe rhoddid caniatâd cynllunio." Cynghorodd hefyd ar sail cais gan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed fod barn Cadw wedi'i chwennych hefyd am fod meini hirion yn y cyffiniau ond doedd gan Cadw ddim gwrthwynebiad i'r cynigion. Daeth gwybodaeth ychwanegol hefyd i law wrth yr asiant yn cyfeirio at amod 4 yn yr adroddiad ac o'r herwydd gofynnodd y swyddog i amod 4 gael ei ollwng o unrhyw ganiatâd a roddid.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod mai un o broblemau byw yn Sir Benfro oedd y diffyg derbyniad band llydan a rhwydweithiau mudol ac felly roedd rhaid canfod cydbwysedd rhwng delio â hynny a'r effaith ar y dirwedd.



Roedden nhw o'r farn fod y swyddogion wedi dod i'r casgliad cywir o ran y cais hwn.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau a draenio ynghyd â Gwybodlen fel roedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad.**

*[Datgelodd y Cynghorydd P Harries fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod pan oedd o dan ystyriaeth.]*

- (d) CYFEIRNOD: NP/17/0301/FULD  
YMGEISYDD: M a G Smith a Thomas, Projects Plus Ltd & Tai Wales & West Housing  
CYNNIG: Ailddatblygu safle hen grochendy a depo i gynnwys addasu adeilad y crochendy; dymchwel tŷ allan yn rhannol a dymchwel yr adeilad depo yn gyfan gwbl, er mwyn datblygu 8 uned tai fforddiadwy a 4 uned dai ar y farchnad agored. Mae'r cais hefyd i gynnwys seilwaith, gwelliannau i'r dirwedd, cynllun lliniaru bioamrywiaeth a gwelliannu ac unrhyw waith ategol -  
LLEOLIAD: Crochenwaith Trefdraeth a hen Safle Depot, Heol Parrog, Trefdraeth.

Cafodd y cais hwn ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygiad o bwys.

Roedd y safle oddi fewn ffin ganol leol ac, felly, roedd yr egwyddor o'r bwriad i greu datblygiad preswyl yn dderbyniol. Roedd y swyddogion o'r farn fod dwysedd y safle yn briodol ar gyfer y llecyn a bod y cynnig yn briodol o ran mwynder gweledol ac yn cynnal nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a hefyd cymeriad a hunaniaeth canolfan lleol Trefdraeth. Roedd y safle gyferbyn ag adeilad rhestredig, Trem y Don, ond ystyrid bod y datblygiad arfaethedig yn diogelu ei leoliad.

Adroddwyd bod yna ddau berchennog tir i'r safle, Cyngor Tref Trefdraeth a pherchennog preifat. Roedd y ddau wedi cyfuno i gytuno i werthu llain o dir i Tai Wales and West Housing, Landlord Cymdeithasol Rhestredig (LCRh), i ddatblygu elfen tai fforddiadwy'r cynnig. Heb yr agwedd ar y cyd hwn deallir na fyddai'r LCRh yn gallu datblygu safle'r hen Depot ar ei ben ei hun, am y deallid fod iddo gyfamod cyfyngu fyddai'n rhwystro datblygu tai ar gyfer y farchnad. Roedd yr agwedd ar y cyd hwn wedi arwain at wyth o blith 12 o unedau preswyl yn unedau fforddiadwy wrth ystyried y cynllun cyfan. Byddai darparu unedau fforddiadwy ar y safle yn cael ei sicrhau trwy gytundeb cyfreithiol S106. Byddai cytundeb cyfreithiol S106 pellach yn sicrhau cyfraniad ariannol ar gyfer addysg o'r pedair annedd fyddai ar y farchnad agored.



Roedd llythyr wedi dod i law wrth gymydog yn Nhrem-y-don a oedd yn codi mater preifatrwydd. Roedd swyddogion o'r farn gan fod y ffenestri a oedd i'w darparu yn lled uchel ac yn ffenestri to ni fydden nhw'n effeithio'n andwyol ar fwynder na phreifatrwydd y cymydog.

I gloi, roedd y swyddogion o'r farn, yn dilyn ystyriaeth o'r polisïau lleol a chenedlaethol a phob ystyriaeth berthnasol, y byddai'r datblygiad yn darparu eiddo preswyl newydd tra byddai'r cymeriad lleol yn cael ei gadw, ac ni fyddai'n effeithio ar fwynder na phreifatrwydd cymydogion. O'r herwydd ac yn amodol ar Gytundebau S106 a gweithdrefn o amodau priodol, roedd y datblygiad yn cael ei ystyried yn dderbyniol. Argymhellwyd y dylid dirprwyo i'r swyddogion i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar gadw'r amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad a chwblhau Cytundeb 106 o ran darparu tai fforddiadwy ac ymrwymadau cynllunio o fewn tri mis i'r cyfarfod.

Cytunai'r Aelodau fod hwn yn gais ardderchog a oedd yn darparu tai fforddiadwy mewn ardal lle'r oedd ei angen, yn ogystal â datblygu safle gwag, ac roedden nhw'n canmol Cyngor Tref Trefdraeth am eu gwaith yn dirwyn y cynnig i fwcwl yn ogystal ag ymwneud cymdeithas dai newydd Tai Wales and West Housing.

Holwyd cwestiynau ynghylch goleuo a gwelededd y safle a chadw ffasâd yr adeilad a'r wal garreg, ac atebodd y swyddogion y byddai'r adeilad crochenwaith yn cael ei gadw i raddau helaeth gyda dim ond ychydig bach o waith dymchwel yn y cefn, a byddai gwelededd o'r safle wedi'i gyfyngu i oddi fewn yr anheddiad. Am fod y datblygiad wedi'i leoli mewn ardal drefol fe fyddai yno olau stryd ac roedd cynllun goleuo wedi'i ddarparu. Roedd yr Aelodau hefyd am sicrhau darpariaeth parcio digonol ac esboniodd y swyddogion y byddai gan y mwyafrif o'r tai ddwy lain barcio'r un. Fodd bynnag, byddai llwybr troed newydd yn cael ei ddarparu ar hyd yr hyn a oedd yn ffordd gul trwy ail-lunio'r wal ffin ac roedd y safle wedi'i leoli'n agos i ganol Trefdraeth lle'r oedd yna gyswllt da i drafnidiaeth gyhoeddus.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r prif weithredwr, Cyfarwyddwr Cynllunio/Arweinydd Tîm i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar gadw at yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad a chwblhau Cytundebau S106 o ran darparu tai fforddiadwy ac ymrwymadau cynllunio o fewn tri mis i'r cyfarfod. Oni dderbynnir nhw o fewn yr amser hwn awdurdodir y swyddogion i ystyried gwrthod y cais ar sail methu darparu tai fforddiadwy ac ymrwymadau cynllunio. Amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, diogelu coed, ecoleg, draenio a darparu sampl o waith carreg.**



- (e) CYFEIRNOD: NP/17/0305/FUL  
YMGEISYDD: Mr Bell  
CYNNIG: Addasu'r tŷ cwch presennol yn rhandy ac adeiladu islawr newydd a grisiau gorchuddiedig, adeiladu ystafell hamdden newydd ar ochr ddeheuol y byngalo ac ail-leoli'r gawod allanol bresennol, gwaredu'r ffenestri bae presennol a gosod rhai newydd yn eu lle  
LLEOLIAD: Trewent Bungalow, Freshwater East, Penfro, Sir Benfro, SA71 5LN

Cyflwynwyd y cais gerbron y Pwyllgor am fod safbwynt y Cyngor Cymuned yn groes i eiddo'r swyddogion.

Adroddwyd bod yr annedd wedi'i lleoli yn union uwchben traeth Freshwater East, ar ymyl dwyreiniol darn o dir o dwyni tywod ar godiad ac i'w weld o'r pentref ac o'r traeth. Ond roedd y swyddogion yn ystyried fod talar yr eiddo yn abl o gymryd datblygiad newydd heb ymddangos yn rhy fawr ac yn or-ddatblygiad. Roedd y ffenestri a fyddid yn eu rhoi yn lle'r rhai presennol yn fwy modern o ran golwg ond yn cael eu hystyried yn welliant gweledol ar y dyluniad gwreiddiol. Yn y cyfarfod cadarnhaodd y swyddog bod cynlluniau diwygiedig wedi dod i law ar gyfer adleoli'r pwll nofio. Argymhellwyd amod tirweddu yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno cynllun tirweddu manwl i sicrhau y byddai rhywogaethau a gorffeniadau yn briodol ar gyfer ymyl yr arfordir. Roedd amod goleuo yn gofyn am fanylion llawn unrhyw oleuo allanol hefyd yn cael ei argymhell.

Roedd pryderon Cyngor Cymuned Llandyfái, oedd hefyd wedi'u hail-adrodd gan gymdogion, wedi cael sylw yn yr adroddiad. Cytunodd y swyddogion ei bod yn bwysig i sicrhau na fyddai'r annedd yn troi'n 'ddeulawr' o ran proffil trwy newidiadau cyson mewn lefelau. Ond tra bo'r cynllun arfaethedig yn caniatáu gwell golau i'r ystafelloedd gwaelod, nid oedd yn ymwneud â chaniatáu gostwng lefel yr ardd trwyddi draw rhwng y tŷ a llethr y traeth. Ystyriwyd felly taw o'r manau gweld pwysicaf ar hyd y traeth byddai'r eiddo yn dal i ymddangos fel byngalo gydag islawr yn hytrach nag eiddo deulawr ac y gellid rheoli lefelau'n ddigonol trwy amod cynllunio i sicrhau y byddai'r datblygiad cyfan yn briodol ar gyfer y safle.

I gloi roedd y swyddogion yn ystyried y byddai'r cynnig yn ffurf dderbyniol o ddatblygiad a oedd yn gydnaws â'r lleoliad presennol a'r defnydd o'r safle. Roedd digon o le ar gyfer parcio preifat a llecyn mwynder ar gael ar gyfer yr eiddo. O'r herwydd roedden nhw'n ystyried y gallai'r cynnig gael ei gefnogi a'r argymhelliad oedd cymeradwyo yn amodol ar gynlluniau diwygiedig a gosod amodau yn eu lle.



Roedd yna un siaradwr, Vicky Tomlinson, sy'n byw yn Freshwater East ac roedd yn awyddus i gynorthwyo'r Awdurdod i ddiogelu prydfferthwch naturiol y bae. Roedd ganddi dri phryder penodol. Yn gyntaf bod y cais yn cynnwys gwybodaeth annigonol i ganiatáu i'r Pwyllgor benderfynu; nad oedd yr adroddiad yn tanlinellu sensitifrwydd yr ardal; ac yn olaf pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu byddai'n gosod cynsail anffodus ar gyfer eiddo arall yn y pentref. Darllenodd Mrs Tomlinson tudalen o sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Aelodau, ynghyd â rhai lluniau, a oedd yn cofnodi ei phryderon ynghylch pob un o'r penawdau yn adroddiad y swyddogion.

Roedd gan yr Aelodau bryderon ynghylch nifer o faterion: y defnydd masnachol posib o'r eiddo ynghyd ag aflonyddu swnllyd a llygredd golau, yr anallu 'i glirio annibendod a adewir ar y traeth' a danlinellwyd gan Mrs Tomlinson, a'r effaith posib ar yr SSSI gyferbyn. Atebodd y swyddogion bod gosod amod ynghylch goleuo wedi'i argymhell ond, fodd bynnag, am fod y cais ar gyfer estyniadau i annedd ddomestig doedd gosod amodau pellach ynghylch defnydd a swm ddim yn bosib. Doedd Cyfoeth Naturiol Cymru ddim wedi mynegi pryder ynghylch yr SSSI gerllaw ond, fodd bynnag, gellid diwygio amodau 3 a 4 i sicrhau gweithredu'r Datganiad Dull Adeiladu yn unol â'r hyn a gytunwyd, a'i gwneud yn ofynnol i gyflwyno manylion tirweddu meddal a chaled cyn dechrau unrhyw waith datblygu pellach ar y safle a fyddai gobeithio yn lliniaru pryderon yr Aelodau. Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion sicrhau y byddai yna gydymffurfiant â'r amodau gan gofio am sensitifrwydd y safle.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar gadw at amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, Datganiad Dull Adeiladu, tirweddu, goleuo, parcio a gwaredu hawliau datblygu a ganiatawyd.**

- (f) CYFEIRNOD: NP/17/0315/FUL  
YMGEISYDD: Waterstone Homes  
CYNNIG: Datblygiad preswyl yn cynnwys 18 o anheddau ynghyd â gwaith cysylltiol  
LLEOLIAD: Tir oddi ar Heol Walton, Aberllydan, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 3LX

Adroddwyd bod y cais hwn, a ddisgrifiwyd fel datblygiad o bwys, yn gofyn am ganiatâd llawn ar gyfer codi 18 o anheddau - pedair annedd ar wahân gyda phedair ystafell wely ar gyfer y farchnad ac wyth annedd pedair ystafell wely rhannol ar wahân ar gyfer y farchnad a chwe annedd fforddiadwy yn darparu fflatiau un ystafell wely mewn bloc sengl. Cafodd y safle ei glustnodi yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer wyth uned breswyl ac yn 2014 rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol gyda phob mater wedi'u cadw wrth gefn (yn ddibynnol ar ddadleuon cyfreithiol) ar



gyfer datblygu deg annedd - chwe annedd ar gyfer y farchnad a phedair fflat fforddiadwy mewn bloc sengl.

Adroddwyd yn y cyfarfod fod Peirianwyr Draenio CSP yn cefnogi'r cais ond roedden nhw wedi nodi na fyddai dulliau ymdreiddiad o ddraenio yn gweithio ar y safle serth ac roedden nhw felly wedi gofyn am amod i sicrhau y byddai'r dŵr wyneb yn cael ei drin yn briodol. Cafwyd tri llythyr pellach wrth y cyhoedd a dau wrth yr Eglwys gerllaw yn mynegu pryder ynghylch dŵr o ffosydd cerrig yn rhedeg i'r fynwent.

O ran materion priffordd, fe fu gwrthwynebiadau i'r datblygiad ar sail cynnydd mewn trafniadaeth a phrinder llwybrau cerdded i gyrraedd y pentref. Roedd yr Awdurdod Priffyrdd wedi cymeradwyo rhoi caniatâd amodol gan gynghori y byddai angen cyfraniad cynllunio o £20,000 ar gyfer dylunio a darparu cysylltiadau cerdded ychwanegol i'r pentref o safle'r datblygiad. Ond ystyriai'r swyddogion pe bai'r Awdurdod yn derbyn cynnydd mewn dwysedd ar y safle yna fe ddylai cysylltiadau cerdded diogel i'r pentref gael eu cynnwys fel rhan o'r cais er mwyn sicrhau y gellid darparu llwybr cerdded priodol. Roedd trafodaethau ynghylch llwybr o'r fath yn parhau ac roedd yr ymgeiswyr yn barod i drafod darparu llwybr o'r fath oddi fewn i'r safle.

Yn dilyn ystyriaeth o'r polisïau oddi fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol roedd y swyddogion yn ystyried fod yr egwyddor o ddatblygu'r safle hwn at bwrpas codi tai yn dderbyniol. Nid oedd y cynnydd mewn dwysedd yn cael ei ystyried yn niweidiol i'r lleoliad ac yn amodol ar ddarparu cynlluniau wedi'u diwygio yn gosod manylion cynnwys llwybr cerdded oddi fewn i'r cynllun cyfredol neu pe na bai hyn yn bosib, ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau cyfraniad tuag at lwybr cerdded diogel, yna, gellid cefnogi'r cais gydag amodau yn cynnwys amod ychwanegol ynghylch draenio dŵr wyneb. Nodwyd hefyd y dylai Amod 4 yn yr adroddiad gyfeirio at gais llawn yn hytrach na Materion Wrth Gefn.

O'r herwydd argymhellwyd dirprwyo'r cais i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio/Arweinydd Tîm i roi caniatâd cynllunio ar yr amod bod y parti(on) â diddordeb yn gyntaf yn ymrwymo i Gytundeb(au) Cyfreithiol Adran 106 boddhaol o ran darparu unedau tai fforddiadwy a chyfraniadau cynllunio tuag at briffyrdd, cyfarpar chwarae a chyfleusterau cymunedol. Pe bai cynlluniau diwygiedig ar gyfer darparu cyswllt llwybr yna byddai'r cyfraniad priffyrdd yn cael ei ddiwygio'n briodol neu yn cael ei ddiddymu o'r ymrwymiad cyfreithiol yn ôl y galw. Byddai unrhyw ganiatâd cynllunio hefyd yn ddibynnol ar yr amodau oedd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad ac y manylwyd arnynt yn y cyfarfod.

Y cyntaf o dri siaradwr ar y cais hwn oedd Ramone Phillips o Gyngor Cymuned y Glannau a ddechreuodd trwy wahodd y Pwyllgor i ymweld â'r





safle. Esboniodd ei fod wedi'i leoli ar feidr un lon gydag ond ychydig o fannau pasio a hefyd ar oledd serth. Roedd y ffordd yn brysur ac yn cael ei defnyddio gan fysis gan arwain yn aml at dagfeydd ar hyd cryn bellter o'i hyd. Doedd y Cyngor Cymuned ddim yn teimlo bod y tai yn gydnaws â'r eiddo oddi amgylch; roedd yna hefyd bryderon ynghylch draenio, am fod y cae yn draenio i'r ffordd, ac ynghylch cynhwysedd y system garthffosiaeth gyda phryderon y gallai unrhyw sarnu arwain at y traeth yn colli ei statws Baner Las. Terfynodd trwy ddweud nad oedd hwn yn ddatblygiad priodol a bod yna safleoedd eraill yn y pentref a oedd yn fwy priodol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Mrs Connie Stephens wedyn yn siarad ar ran preswylwyr Heol Walton. Roedd eu pryderon yn ymwneud â graddfa'r datblygiad ac fe gyfeiriodd at ddatganiad a wnaed gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2009 yn nodi na fyddai'n rhesymol i ddatblygu mwy nag wyth annedd ar y safle. Roedd hwn wedi cynyddu i ddeg annedd pan roddwyd caniatâd amlinellol yn 2014 a nawr roedd cynnydd pellach i 18 annedd. Roedd hyn yn gynydd o 125%. Roedd o'r farn bod y stoc dai yn y pentref yn ddigonol ar gyfer ei anghenion a bod cyfran sylweddol ohonyn nhw yn wag. Byddai cynnydd pellach yn arwain at gynydd yn y nifer o ail-gartrefi. Roedd yr ail bryder yn ymwneud ag ymwthio gweledol y datblygiad, ar yr hyn a oedd yn safle ar godiad, o eiddo a oedd yn dri llawr o ran uchder. Credai Mrs Stephens y byddai hyn yn cael effaith weledol ar Heol Walton ac ar Aberllydan yn fwy cyffredinol yn ogystal â bod yn ymwthiol i breswylwyr Driftwood Close. Nododd hefyd fod Heol Walton yn feidir gul na fyddai'n medru cymryd 18 annedd yn ychwanegol gan ei bod yn cael ei defnyddio'n helaeth gan gerbydau trymion a doedd yna ddim palmant yno. Credai y byddai stad dai yn y lleoliad hwn ddim ond yn dderbyniol pe bai yna gynllun i ledu'r ffordd yn sylweddol. Roedd yna hefyd bryderon ynghylch carthffosiaeth a draenio. Terfynodd trwy ddweud ei bod yn ymddangos fod yr ymgeiswyr yn gofyn am gynydd o fwy o ddwysedd fel y bydden nhw'n medru cynyddu eu helw. Dywedodd hefyd bod codi arwydd mawr heb ganiatâd cynllunio yn dangos pa mor ddihidi oedd yr ymgeisydd o'r safle. Credai y dylai Aberllydan gael ei drin â'r un sensitifrwydd â phob man arall ac ymbiliodd ar yr Aelodau i ymweld â'r safle.

Yn olaf anerchwyd y Pwyllgor gan yr asiant, Robin Williams. Cyfeiriodd at y ffaith fod gan y safle'r fantais o ganiatâd cynllunio amlinellol a'i fod wedi'i glustnodi ar gyfer datblygiad preswyl. Roedd egwyddor y datblygu felly wedi'i dderbyn ers tro byd. Aeth yn ei flaen i ddelio â gwrthwynebiadau'r Cyngor Cymuned a dywedodd mai dwysedd y safle oedd 27 annedd fesul hectar a oedd yn dipyn is na'r norm y dyddiau hyn, ac yn llwyr mewn cytgord ag ystadau eraill yn y pentref. O ran yr effaith gweledol awgrymodd y dylid ystyried yr effaith dirweddol yn erbyn yr hyn a ganiatawyd yn y caniatâd amlinellol; y newid perthnasol oedd gosod



anheddau rhannol ar wahân yn lle'r unedau mawr ond roedd yr ôl-troed yn dal yr un fath. Roedd yna ddatganiad effaith gweledol tirweddol wedi'i gynnwys gyda'r cais. I droi at y briffordd a mynediad i gerddwyr nododd Mr Williams bod yr Awdurdod Priffyrdd wedi cefnogi'r cais yn amodol ar gyfraniad tuag at ddarparu palmentydd i'r pentref ac roedd yr ymgeisydd wedi cytuno â hyn. Roedd cynllun draenio wedi'i gyflwyno ac roedd hwn wedi'i dderbyn. Byddai draenio dŵr wyneb yn cael ei wneud yn unol â SUDS (Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy). Yn olaf nododd y byddai datblygu'r safle yn cyfrannu tuag at y prinder tai oddi fewn i'r Parc Cenedlaethol yn ogystal â darparu chwe uned o dai fforddiadwy mawr eu hangen.

Wrth ateb cwestiynau'r Aelodau dywedodd Mr Williams mai amryfusedd oedd yn gyfrifol am beidio â gwaredu'r arwydd a godwyd heb ganiatâd ac y byddai'n codi'r mater gyda Rheolwr Gyfarwyddwr y cwmni. Dywedodd hefyd nad oedd y safle yn ddichonadwy gogyfer â datblygu deg eiddo oherwydd y costau afresymol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cynllunio, o ran preswyllo yn yr unedau fforddiadwy gan bobl 'lleol' roedd hyn yn safonol o ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig oedd yn gweithredu polisi gosod rhaeadru.

Roedd yr Aelodau am eglurhad ynghylch y gyfradd is o dai fforddiadwy a gynigid fel rhan o'r cynllun presennol o'i gymharu â'r caniatâd a roddwyd yn 2014. Esboniodd y swyddog bod yr Awdurdod wedi adolygu ei Gyfarwyddyd Cynllunio Ychwanegol yn 2014 ac fel rhan o hynny wedi gostwng y ganran o unedau fforddiadwy i'w darparu ar safleoedd o ddau neu fwy o anheddau. Am mai'r angen yn Aberllydan oedd am unedau un ystafell wely doedd y rhain ddim yn cymryd mwy na chyfradd fechan o'r safle.

Siaradodd y Cyngorydd P Morgan wedyn fel Cyngorydd Sir Y Glannau yn mynegu ei bryder ynghylch y cynnydd mewn dwysedd ar y safle a fyddai'n arwain at gynnydd mewn trafndiaeth ar hyd yr hyn a oedd yn feidr gul ac yn dioddef tagfeydd, yn arbennig ym misoedd yr haf, a heb fawr o fannau pasio. Roedd y ffordd yn cael ei defnyddio gan fws yr arfordir a thrafnidiaeth amaethyddol. Credai fod y datblygiad yn groes i Bolisi 15 o'r Cynllun Datblygu Lleol a oedd yn ceisio diogelu a hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol. Gofynnodd i'r Pwyllgor i gefnogi ymweliad safle.

Atgoffwyd y Cyngorydd Morgan wedyn gan y Swyddog Monitro nad oedd yr Aelodau yn cynrychioli eu hetholaethau pan oedden nhw'n eistedd ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol a bod yna weithdrefnau i'w dilyn pan oedd Aelod am siarad fel aelod o awdurdod arall. Cytunodd y Cyngorydd Morgan wedyn ei bod yn briodol iddo adael yr ystafell gydol gweddill y drafodaeth ynglŷn â'r cais.



Tra roedd yr Aelodau ar y cyfan yn gefnogol i'r cais roedden nhw'n cydnabod pryder y gymuned ac yn arbennig ynghylch mynediad. Roedden nhw hefyd yn pryderu y byddai darparu llwybr cerdded yn gwneud y ffordd hyd yn oed yn gulach a doedden nhw ddim yn gysurus ynghylch dirprwyo sicrhau cytundeb ynglŷn â'r agwedd hon o'r datblygiad i swyddogion. Cafwyd cynnig i ohirio'r cais i ganiatáu i'r Aelodau ymweld â'r safle ei roi gerbron ac fe gafodd ei eilio.

**PENDERFYNIAD: Gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle.**

*[Datgelodd y Cynghorydd D Clements fuddiant yn y cais canlynol a gadawodd y cyfarfod tra oedd o dan drafodaeth.]*

- (g) CYFEIRNOD: NP/17/0346/FUL  
YMGEISYDD: Mr Lort-Phillips  
CYNNIG: Adleoli ac ailddatblygu fferm laeth organig gan gynnwys uned laeth organig newydd, storfa biswail, tanffordd a sied cadw lloi  
LLEOLIAD: Tir yn Lawreni

Adroddwyd bod y cais hwn yn gofyn am ganiatâd i adleoli'r fferm laeth sydd yn Home Farm ar hyn o bryd, oddi fewn i bentref Lawreni, i safle i gyfeiriad y gogledd ddwyrain o'r pentref oddi ar Broad Lane. Byddai'r adeiladau/adeileddau presennol yn cael eu dymchwel pan fydd defnydd buddiol o'r ffarm arfaethedig wedi'i hadleoli wedi dechrau. Nodwyd fod safle'r adeiladau fydd wedi'u dymchwel wedi'i glustnodi ar gyfer codi tai yn ôl y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI).

Adroddwyd wrth y Pwyllgor fod yr elfen tanffordd wedi'i waredu o'r cais. Roedd graddfa'r cais yn dderbyniol yng ngolwg cynghorwr amaethyddol yr Awdurdod a byddai ei effaith weledol wedi'i leihau am na fyddai mwy na golwg nawr ac yn y man o'r adeiladau amaethyddol a ddisgwylir ar dir amaethyddol. Roedd yna eiddo ar ochr arall Broad Lane yn yr union fan lle bwriadwyd y datblygiad ond fodd bynnag doedd y pellter o 54 metr rhyngddyn nhw ddim yn cael ei ystyried yn rheswm i wrthod y cais.

Daeth pum llythyr o wrthwynebiad/pryder i law ac roedd crynodeb o'r rhain wedi'i osod allan yn yr adroddiad. Er y gwrthwynebiadau hyn roedd y swyddogion o'r farn fod y datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol. Ni fyddai'r datblygiad yn achosi unrhyw bryderon cyffredinol o ran yr effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, tirwedd, mwynder, diogelwch priffyrdd neu ecoleg. Ymhellach byddai'r datblygiad ar gorn y cytundeb S106 a argymhellwyd yn galluogi'r perchennog tir i fwrw ymlaen â chais cynllunio ar gyfer 30 o



dai, 13 ohonyn nhw'n fforddiadwy, ar y safle oedd wedi'i neilltuo lle'r oedd yr adeiladau fferm presennol.

Yr argymhelliad oedd rhoi pwerau dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cynllunio/Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygiad i weini rhybudd penderfyniad yn rhoi caniatâd cynllunio o ran y cynnig, yn amodol ar osod amodau, unwaith y bo'r ymgeisydd wedi llofnodi Cytundeb S106 (o fewn chwe mis i ddyddiad cynnal y Pwyllgor) i gyflwyno cais cynllunio dilys ar gyfer y safle sydd wedi'i neilltuo cyn i'r CDLI ddirwyn i ben ac i gyflawni'r gwaith o ddymchwel yr adeiladau fferm cyfredol yn Home Farm yn unol â chynllun rheoli dymchwel i'w gyflwyno ac i'w gytuno gyda'r Awdurdod.

Holodd yr Aelodau beth oedd natur yr adeiladau fyddai'n cael eu dymchwel ac atebodd y swyddog nad oedden nhw o unrhyw werth pensaernïol a bod rhai ohonyn nhw mewn cyflwr gwantan. Fe holon nhw ynghylch lliw'r seilos ac fe gynghorwyd y gellid gosod amod yn ei gwneud yn ofynnol i'w peintio mewn lliw priodol. Gofynnwyd hefyd i ddiwygio amod pedwar i'w gwneud yn ofynnol i'r llinell goed gael ei chadw wedi'r cyfnod adeiladu er mwyn rhanguddio'r datblygiad rhag eiddo cyfagos.

Gofynnodd Aelod arall a oedd hi'n bosib ei gwneud yn ofynnol i'r nifer penodol o anheddau fforddiadwy a nodwyd yn y CDLI gael eu darparu ar y safle a neilltuwyd. Cynghorodd y swyddogion nad oedd hyn yn bosib am ei fod yn gwestiwn o hyfywedd ar adeg cyflwyno'r cais.

Yn olaf gofynnodd yr Aelodau ynghylch y storfa slyri, gan fod hon yn ffarm organig, ac yn benodol o gofio am y tebygolrwydd o gyflwyno Parthau Perygl Nitradau (PPN) o amgylch Afon Cleddau yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Nodwyd bod gan y storfa gynhwysedd 12 mis ac roedd y Cynghorydd Amaethyddol wedi asesu'r cais ac roedd wedi'i fodloni y byddai graddfa'r fenter ar ffarm Lawreny Home yn cyfiawnhau'r maint, graddfa a'r math o adeiladau ar safle arfaethedig yr adleoli.

**PENDERFYNIAD: Dirprwyo'r cais i'r Cyfarwyddwr Cynllunio/Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygiad i weini rhybudd penderfyniad yn rhoi caniatâd cynllunio o ran y cynnig, yn amodol ar Gytundeb S106 ac amodau yn ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, draenio dŵr wyneb, tirweddu, cynllun ymchwil archeolegol, cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu, goleuo, lliw'r seilos a strategaeth dylunio ecolegol.**

**Ei gytuno gyda'r ymgeisydd o fewn chwe mis i ddyddiad cynnal y Pwyllgor, a'r un pryd ymrwymo'r ymgeisydd i gyflwyno cais cynllunio dilys ar gyfer y safle a glustnodwyd cyn i'r CDLI ddod i ben a chyflawni dymchweliad yr adeiladau fferm presennol yn Home Farm yn unol â chynllun rheoli dymchwel bydd wedi'i gyflwyno a'i**



## gytuno gyda'r Awdurdod.

- (h) CYFEIRNOD: NP/17/0452/FUL  
YMGEISYDD: Mrs L Jenkins  
CYNNIG: Dymchwel ac ailadeiladu cwrtil a wal wrth ymyl y ffordd a chreu lle parcio ar dir gwag yn union i'r gogledd o Bentwyn  
LLEOLIAD: Pentwyn, 6, Golygfa Sain Brîd, Solfach, Hwlfordd, Sir Benfro, SA62 6TB

Roedd y cais hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor am fod yr ymgeisydd wedi bod yn Aelod o'r Awdurdod oddi fewn i'r deuddeg mis diwethaf.

Adroddwyd bod y safle o dan sylw oddi fewn i Ardal Gadwraeth Solfach. Gofynnid am ganiatâd cynllunio yn yr achos hwn oherwydd presenoldeb Cyfarwyddyd Erthygl 4 a oedd yn cyfyngu ar yr hawliau datblygu arferol a ganiateir ar gyfer newidiadau i gwrtil tu blaen. Roedd y gwaith hefyd yn cael ei ystyried yn orchwyl peirianyddol a byddai angen caniatâd penodol ar sail hynny hefyd.

Nodwedd o safle'r datblygiad oedd darn o dir porfa ar lethr wedi'i gau yn y pen uchaf gan wal garreg isel. Roedd y cynnig yn crybwyll ailadeiladu'r wal gan ddefnyddio'r cerrig gwreiddiol ac i ail-drefnu'r llecyn y tu blaen a oedd wedi'i orchuddio â glaswellt ar hyn o bryd er mwyn caniatáu lle i barcio yno. Y bwriad oedd gosod porfa ar yr wyneb fel sydd yno nawr ond gan ddefnyddio dull tebyg i'r hyn a elwir yn 'grasscrete'.

Roedd y Swyddog Cadwraeth Adeiladau wedi'i fodloni na fyddai yna ddim a fyddai'n andwyol i'r Ardal Gadwraeth o ganlyniad i'r cynigion ac fe ellid felly eu cefnogi trwy osod amodau priodol.

Y cyntaf o ddau siaradwr ynghylch y cais hwn oedd Ashley Heart. Roedd e'n gwrthwynebu dymchwel y bancyn hanesyddol er mwyn creu llecyn ar gyfer parcio ar dir a oedd yng ngolwg llawer o bobl yn dir comin am nad oedd wedi'i gofrestru'n eiddo i neb. Roedd yn credu bod yr hen wal gerrig dull Sir Benfro wedi bod yno ers dros 300 mlynedd ac roedd yr adeiladau o ddiddordeb hanesyddol i'r ardal. Roedd yn teimlo y byddai dymchwel y wal yn newid golwg weledol yr ardal ac na fyddai'r hyn sydd wedi'i gynnig yn cydymffurfio â'r hyn sy'n ddisgwyliedig mewn ardal gadwraeth, a bwriad statws o'r fath oedd diogelu nodweddion o ddiddordeb. Doedd Mr Heart ddim yn credu bod angen creu llecyn parcio am fod llefydd parcio digonol gerllaw, heblaw efallai yn anterth tymor yr haf, a holodd tybed ai ei bwrpas oedd ychwanegu gwerth at y bwthyn. Doedd y tir ar hyn o bryd ddim yn cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio, am nad oedd y preswlydd yn gyrru, ond roedd yn cael ei gadw'n gymen gan Mr Heart ei hun. Roedd



hefyd o'r farn y byddai gwaredu'r llecyn porfa yn creu problemau i'r ddau fyngalo gyferbyn ac roedd yn cofio fod un o'r rheiny wedi dioddef llifogydd yn y gorffennol. Pe bai caniatâd yn cael ei roi credai y byddai rhaid tyllu i ganfod beth yn union oedd o dan y glaswellt a chanfod faint yn gwmws o ddŵr oedd yn cael ei ddal yn y bancyn.

Anerchwyd y Pwyllgor gan yr Asiant, Ian Bartlett, wedyn. Esboniodd mai'r cynnig oedd creu llecyn parcio oherwydd yr angen i ddarparu man parcio hwylus ar gyfer gofalydd, a hefyd ar gyfer unrhyw breswilydd yn y dyfodol. Cyfeiriodd at lun a dynnwyd o'r awyr yn y 1960au a oedd yn dangos fod y tir wedi cael ei ddefnyddio'n hanesyddol ar gyfer parcio ond ei fod erbyn hyn yn wyneb glaswelltog meddal. Credai fod y wal garreg a'r bancyn yn dirywio'n araf ac yn debygol o fod yn ansad ymhen amser. Dywedodd Mr Bartlett ei fod yn ymwybodol o sensitifrwydd y lleoliad a'r briffordd gul gerllaw, ac ar ôl derbyn cyngor cyn-gyflwyno gan y Swyddog Cadwraeth Adeiladau a'r Awdurdod Priffyrdd roedd wedi canfod eu bod ill dau yn gefnogol. Byddai'r wal garreg yn cael ei hail-godi gan ddefnyddio'r cerrig y gellid eu cadw a byddai'r llecyn glaswelltog yn edrych yn gwmws yr un fath trwy ddefnyddio mat grid plastig a fyddai yn ei dyb ef yn cynnwys fawr ddim llai o athreiddedd o'i gymharu â'r borfa. Rhagwelwyd y byddai'n caniatáu parcio cerbyd o faint cerbyd teuluol gyda gorddrws cefn. Terfynodd trwy ddweud y dylai datblygiad mewn ardal gadwraeth fod yn diogelu neu hyrwyddo ac roedd o'r farn y byddai'r datblygiad hwn yn hyrwyddo'r fangre.

Doedd yr Aelodau ddim o'r farn y byddai'r sefyllfa o ran draenio dŵr wyneb yn newid o ganlyniad i ddefnyddio wyneb athraidd ac roedden nhw'n fodlon mai'r argymhelliad oedd gosod amod gydag unrhyw ganiatâd i sicrhau draenio cynaliadwy.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais gydag amodau'n ymwneud ag amseriad, yn unol â chynlluniau, samplau o gerrig a gwaith carreg a draenio dŵr wyneb.**

- (i) CYFEIRNOD: NP/17/0495/FUL  
YMGEISYDD: Mr Shannon  
CYNNIG: Newid 15 llain gwerysyla i 15 carafán sefydlog a gwelliannau ecolegol  
LLEOLIAD: Windmills Caravan Park, Old Narberth Road, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 8TJ

Adroddwyd yn y cyfarfod fod y cais hwn wedi'i dynnu nôl.

**NODWYD.**



- (j) CYFEIRNOD: NP/17/0548/FUL  
YMGEISYDD: Ystad Hean Castle.  
CYNNIG: Codi estyniad i'r sied wartheg ar gyfer y fuches bîff a symud y deunydd a gloddiwyd  
LLEOLIAD: Tir i'r gogledd o Hean Castle, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9AL

Adroddwyd bod y cais wedi'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor am ei fod yn cael ei ystyried yn ddatblygiad o bwys. Roedd safle'r cais ar dir sy'n ffurfio rhan o 288 hectar o fenter ffermio sydd wedi'i hen sefydlu a gofynnid am ganiatâd cynllunio am estyniad i sied wartheg oedd eisoes yno. Byddai'r adeilad arfaethedig yn cynnwys stôr rheoli maetholion o dan ddaear, a fyddai'n casglu'r holl slyri a gynhyrchid gan y fuches a gedwid uwchben. Er mwyn lleihau uchder yr adeilad yn y tirlun byddai'r seiliau ar gyfer yr estyniad yn cael eu gosod yn is ac fe fyddai'r deunydd a gloddid o ganlyniad i'r datblygiad yn cael ei ddefnyddio i wastatáu a chreu tir pori o'r newydd i gyfeiriad dwyreiniol y safle.

Roedd y dyluniad yn amlwg yn amaethyddol ei natur a thra bo'r estyniad newydd yn fawr o ran graddfa, am ei bod yn angenrheidiol cydymffurfio â safonau lles cyfredol ar gyfer cadw buches bîff o dan do, roedd yn angen cydnabyddedig ar dir lle'r oedd yna adeilad amaethyddol, ac ni fyddid yn ei ystyried yn weledol ymwithiol o'r herwydd. Roedd yna dirweddu aeddfed a choed o amgylch y safle a fyddai'n cydbwysu'r olwg weledol fel na bo'r datblygiad yn y pen draw yn cael ei weld yn anghydnaws â thirwedd presennol y lleoliad. Roedd y cais felly yn cael ei gymeradwyo ar gyfer ei ganiatáu gydag amodau.

Roedd ymgynghorydd amaethyddol yr Awdurdod yn cefnogi'r cais a doedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddim gwrthwynebiad i'r cynnig dim ond i nodyn cynghori ynghylch cynhwysedd y storfa slyri gael ei gynnwys.

Adroddwyd yn y cyfarfod pe bai caniatâd yn cael ei roi byddai amod tri a nodwyd yn yr adroddiad yn cael ei gyfnewid am amod dirweddu safonol ac y byddai yna amod yn ymwneud â goleuo allanol yn unol ag argymhelliad yr Ecolegydd.

Siaradodd yr ymgeisydd, Mr David Lewis, ond dim ond i ofyn i'r Pwyllgor i gefnogi'r cais ac i fynegi ei barodrwydd i ateb cwestiynau pe bai'r Aelodau am ei holi. Fodd bynnag, doedd yna ddim cwestiynau ac fe gafodd y cynnig i gymeradwyo ei roi gerbron ac fe gafodd ei eilio.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau'n ymwneud ag amseru, yn unol â chynlluniau, tirweddu, datganiad dull adeiladu, goleuo ac amodau yn unol â chais yr Awdurdod Glo.**



## **8. Apeliadau**

Adroddodd yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu am bum apêl (yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan yr Awdurdod) a oedd ar hyn o bryd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, gan fanylu ar y diweddaraf o ran y broses apêl hyd yma ymhob achos.

**NODWYD.**

